# Newyddion Bethlehem

www.gwe-bethlehem.org (trydar): @GweBethlehem Gwaelod-y-garth Rhagfyr 2014

**Neges y Gweinidog**

# RHOI TŴLS AR Y BAR

**Dyna i chi un o ymadroddion y glöwr. *“Mae’r shifft wedi cwpla ac mae’n bryd rhoi twls ar y bar.”* Arfer y glöwyr oedd cloi eu hoffer ar far dur i’w cadw’n ddiogel.** O’r un diwydiant y daw’r sôn am ‘dalcen caled’ a ‘dim gobaith caneri.’ Y tri pheth pwysicaf i’r glöwr eu meddiannu oedd lamp i roi golau, tun i gadw bwyd a jac i gario dŵr.

Y mae i lawer o ddiwydiannau eu hymadroddion. Geiriau’r chwarel yw ‘ponc’, ‘caniad’ ‘bargan’, ‘hollti’ a ‘naddu’. Blas y pridd sydd ar alw gwartheg: ‘Trw’i, trw hop’ ym Maldwyn; ‘trwbach, twboch-twboch’ ym Môn; ‘Twei twei twei’ yng ngogledd Ceredigion. A byddai ‘swc, swc-swc’ a ‘Gis, gis-gis’ yn iaith byd amaeth.

Beth mai clerigwr yn ei wneud wrth ddod i ben y dalar? Rhoi ei goler gron ar astell y pulpud! Ymadrodd mwy ystyriol fyddai ‘A’r wlad a gafodd lonydd.’


Gan i mi ddechrau pregethu yn Llanbryn-mair yn 1954, dyna drigain mlynedd o draethu. Fe alla’ i ddweud yn onest na fu hapusach blynyddoedd na’r saith mlynedd ddiwethaf. Fel arfer, mae dyn yn dechrau trwy fwrw prentisiaeth a chyda phrofiad yn cyrraedd y brig. I mi, mae’n union groes i hynny gan i mi ddechrau ym Mharadwys a gorffen yn y Gwaelod!

Ond nid gorffen chwaith gan mai fy mwriad yw parhau f’aelodaeth ym Methlehem cyn belled na bydd hynny’n dramgwydd i’m holynydd.

Diolch o galon am eich caredigrwydd. Boed i chi wybod am holl fendithion y Nadolig. Wela i chi flwyddyn nesa, o’r meinciau cefn.

**R Alun**

**Ond cyn iddo ffarwelio – trowch i dudalen 3 i weld beth fu'n achos cymaint boddhad i Alun!**





*Yn yr Ysgol Sul*



*Yn llenwi'r Sêt Fawr*

***Mae pawb ohonoch, reit siwr, wedi sylwi bod niferoedd y plant sy'n mynychu Bethlehem ar gynnydd unwaith eto. Mae rhagor o luniau ohonyn nhw ar dudalennau 8 & 9***



*Yn y Cwrdd Diolchgarwch*

## Trefn Suliau Rhagfyr

**Bore Sul Rhagfyr 7fed** - Ymweld â Chartre Nyrsio Willowbrook House, St Arvans Crescent, Llaneirwg, CF3 0EF
Gwasanaeth byr o garolau yno am 11.00 y bore

**Nos Sul Rhagfyr 7fed** - Naw Llith a Charol ym Methlehem

**Rhagfyr 14** Bore - Ymarfer i'r Plant; Nos - Cymun

**Rhagfyr 21 - Bore** Gwasanaeth Nadolig y Plant

**Bore'r Nadolig –** Gwasanaeth byr ym Methlehem

**Rhagfyr 28 -** Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

**Cofiwch am**

## Y Plygain

**Pnawn Sul, Ionawr 11**
**am 4.30 y pnawn**

**Beth am drefnu grŵp/parti i ganu dwy garol!**



## Suliau Ionawr – Ebrill 2015

**IONAWR**
4 – Y Parchg. Allan Pickard
11 - **Bore**: Oedfa Ardal - Radur
**Pnawn:** Y Plygain (4.30)
18 - Y Parchg. Aled Edwards
25 - Oedfa Ardal - Gogledd a Gorllewin Caerdydd

**CHWEFROR**
1 - Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
8 - Y Parchg.Peter Dewi Richards
15 – Y Parchg. Cynwil Williams
22 – Dim trefniant eto

**MAWRTH**
1 - Gwasanaeth Gwyl Ddewi
8 - Y Parchg. Glyn Tudwal Jones
15 - Oedfa Ardal - Gwaelod y Garth, Ffynnon Taf a Thongwynlais
22 - Dim trefniant eto
29 - Y Parchg. Jeff Williams

**EBRILL**
5 - Sul y Pasg - Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
12 - Dim trefniant eto
19 - Y Parchg. John Gwilym Jones
26 - Dim trefniant eto

**Cyfeiriadau:**
**Y Gweinidog: Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,** ***Ffôn:*** 02920 520 854 ***e-bost:*** ralun.evans@virgin.net
**Ysgrifennydd: Rhodri-Gwynn Jones, Ffôn:** 029 20 89 00 39 ***e-bost:*** rhodrigj@tiscali.co.uk

**Nodiadau Rhodri**

## Galw Arweinydd, Bugeilio ac Chronfa 'Ebola'

**1. Galw Arweinydd rhan-amser ar gyfer Bethlehem, Gwaelod-y-garth a Bethel, Caerffili:**
Yn dilyn hysbyseb yn Y Tyst a Golwg yn ystod yr wythnosau diwethaf, siomedig fu'r ymateb, ac o'r herwydd bydd galw ar y Pwyllgor Bugeiliol i ail-ymgynnull i ystyried y camau nesaf.

**2. Trefnu Bugeilio a chynnal gor-olwg ar Addoli yn ystod 2015:**
Yn dilyn ymddeoliad ein Gweinidog ar ddiwedd 2014, ac o gydnabod ei waith diflino fel bugail, mae'r Diaconiaid yn awyddus bod trefn fugeilio gadarn yn ei lle ac yn parhau ym ymhob ardal. Y dyhead ydi sicrhau bod yr aelodaeth yn ei chyfanrwydd yn chwarae eu rhan i fod yn llygaid ac yn glust ar ran yr eglwys, ac yn barod i ymweld ac unigolion a theuluoedd yn ôl y galw. Bydd y Diaconiaid, yn ôl eu hardaloedd, yn falch o'ch parodrwydd i fod o gymorth i hwyluso hyn.
O ran addoli, awgrymwyd y dylem unwaith yn rhagor, fel un teulu mawr, ysgwyddo peth o'r cyfrifoldeb o sicrhau fod gwasanaethau o Sul i Sul ym Methlehem yn cyd-fynd a'ch dyheadau. Mae Eirlys (Radur) yn trefnu llenwi'r pulpud, ond mae hi hefyd angen cymorth dau neu dri i gymeryd gor-olwg ar yr hyn a ddarperir, a hwyrach i awgrymu ambell i drywydd (gwahanol?) y dylem ei ystyried. Tybed a oes 'na wirfoddolwyr yn barod i ymgymeryd a'r dasg yma? Rhowch wybod!


**3. Casgliad "DEC Ebola Crisis Appeal":**
Yn ôl ein harfer ar adegau o alw, 'rydym wedi anfon siec gwerth £1000 i'r apel uchod. Gwahoddwn chi, yn yr un modd, pe dymunech, i gyfrannu i'r apel yma trwy law Trysoryddion Bethlehem, Gwaelod-y-garth. (Mae Cymorth Cristnogol yn un o gefnogwyr yr ymgyrch arbennig yma.) Rhowch unrhyw gyfraniad mewn amlen, nodwch arni "Apel Ebola" yn ogystal â'ch enw, a'i gyflwyno yn y plât casgliad ar fore Sul tros y tair wythnos nesaf yma. (Byddwn yn gallu manteisio ar gynllun "rhodd cymorth" os yw eich enw ar yr amlen).
Diolch am eich parodrwydd i fod o gymorth mewn amryfal ffyrdd wrth i ni, fel eglwys, baratoi at gyfnod newydd arall yn ein hanes.

**Rhodri-Gwynn Jones, Ysgrifennydd, Bethlehem**

# I Alun – dalen o luniau!

Os ydych chi wedi darllen tudalen 1 (cyn rhuthro i dudalen 3), yna fe fyddwch wedi casglu bellach fod R Alun a'i lygaid ar gymryd hoe cyn hir. Ond bu llygaid ein camerâu ninnau arno fe hefyd. Dyma ddyrnaid o luniau'n ymwneud a'r Gweinidog sydd wedi eu crynhoi ers ein rhifyn diwethaf!







Uchod: ar y chwith a'r dde – Rhodri'n dadlennu'r syrpreis i arch-ffan y Swans.

Isod: Beibl Cadeirydd yr Annibynwyr Cymreig ynghyd â'r cofnod diweddaraf sydd ynddo.










Bowlen wydr hardd a llun o Gapel Biwla, Cwm Nant yr Eira, Sir Drefaldwyn - yr anrhegion gyflwynwyd i Alun pan fu yno'n gwasanaethu yn ystod yr haf eleni - trefn y mae wedi ei chadw am 60 mlynedd.


# Tymor o Fedyddiadau





*Tachwedd 9fed - bedydd ALYS MAI HUWS, merch Aled a Lisa Huws.*



*Tachwedd 9fed - bedydd GRUFFYDD ROBERT IAN MEADE OWEN mab Catrin a Stephen Meade*



*Hydref 12fed – bedydd NEL GRIFFITH ROBERTS, merch Elin a Hywel Roberts.*



*Medi 14 – bedydd ELEN GWYN TOWNSON, merch Anna a Stuart Townson.*



*Tachwedd 23 – Bedydd TRYSTAN GWILYM AP RHYS, mab Lowri a Gwion Rhisiart*



*Tachwedd 23 – Bedydd Osian Taf Eldridge, mab Caryl a Mark Eldridge*

Ymddiheuriadau! Dim ond camera fideo oedd ar waith ar fore bedyddio Thomas Daniel Stewart Lloyd Lawrie, mab Angharad Lloyd Lawrie a Benjamin Lawrie. Daw cyfle rywbryd eto i ni weld Thomas yn ein colofnau.

**Angharad King yn sôn am:**

# Gofal Iechyd yn Ynysoedd Solomon

Am 9 wythnos dros yr haf es i i'r Ynysoedd Solomon i astudio'r gwahaniaeth gofal iechyd rhwng ein gwlad ni a gwlad yn y trydydd byd. Un o'r pethau a'm synnodd i oedd gweld cŵn gwyllt yn crwydro yn rhydd o amgylch yr ysbyty - ac ambell waith y tu fewn i'r ysbyty ei hun!.

Yn aml roedd na ddŵr budr mewn pyllau ar lawr yr ysbyty, ac fe fydden nhw'n rhedeg allan o gyffuriau. Yn wir pan oeddwn i yna doedd dim 'morphine' ar gael ac felly doedd dim modd i arbed pobl a oedd mewn poen mawr rhag dioddef yn ormodol.

Gwelais nifer o bentrefi bach o amgylch y brifddinas pan ges i'r cyfle i fynd i frechu'r plant bach oedd yn byw yna. Roedd yn brofiad anhygoel.

***Mae Anghard King, Llandaf, yn cymhwyso i fod yn feddyg yn Southampton. Yn ystod yr haf bu draw yn Ynysoedd Solomon am 9 wythnos, fel rhan o'i hastudiaethau ac mae'n adrodd am ei phrofiad yma*.**



***Angharad ar ymweliad ag un o'r pentrefi yn ystod ei chyfnod ar Ynysoedd Solomon.***

***Yr ysbyty y bu Angharad yn gweithio ynddo yn y brifddinas am 9 wythnos dros yr haf.***



***Yr Elusen Leol Eleni***

## Banc Bwyd Caerdydd

*Cofiwch ein bod yn derbyn rhoddion yn gyson i'r Banc Bwyd .*

***Mae blychau yn y cyntedd.***

*Dyma restr lawn o nwyddau fyddai'n dderbyniol*

- ***Llaeth (UHT ), Creision Brecwast ac Uwd***
- ***Cawl paced a chawl tun***
- ***Sudd Ffrwythau (UHT)***
- ***Saws Pasta***
- ***Tuniau pwdin reis neu sbwnj, Cwstard***
- ***Tomatos tun***
- ***Pasta, Reis, Lentils, Nwdls, Pecynnau Pasta a Saws, Couscous***
- ***Llysiau Tun***
- ***Tatws Mash paced/tatws mewn tun***
- ***Cig/Pysgod/Ffrwythau mewn tun***
- ***Siwgr***
- ***Bisgedi, bariau byrbryd***
- ***Olew Coginio***
- ***Jam***
- ***Bagiau Te a Choffi***
- ***Siocled.***

**Tymor newydd Y Cwrdd Merched** **Delyth Pollard**

# Ymweld ag Arddangosfa Tirluniau Richard Wilson




Y mis diwethaf, a hithau'n brynhawn heulog hyfryd, fe ymlwybrodd criw o ferched y capel tuag at yr Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays, lle'r oedd yr arddangosfa - 'Richard Wilson a Gweddnewidiad Peintio Tirluniau Ewropeaidd'. Roedd yr arddangosfa'n nodi trichanmlwyddiant geni'r arlunydd a bu ar agor hyd ddiwedd mis Hydref.

Yno yn ein haros roedd Mrs Ann Saer, ac wrth iddi ein tywys yn fedrus trwy'r orielau cawsom ar ddeall taw'r Cymro yma a anwyd ym Mhenegoes ger Machynlleth oedd yn gyfrifol am drawsnewid y traddodiad o beintio tirluniau ym Mhrydain.

Ar ôl cyfnod yn yr Eidal dychwelodd i Brydain a chael ei sbarduno gan olygfeydd godidog ei gynefin. Cyfeirir yn aml at Wilson fel 'tad tirluniau Prydeinig', a bu'n rhan ganolog o hanes y celfyddydau gweledol yng Nghymru.

Diolch o galon, Ann, am brynhawn diddorol dros ben. ***Delyth Pollard***



*Ym mis Hydref daeth Eifion Glyn atom, a chawsom sgwrs ddiddorol dan y teitl gogleisiol "Yr Wy, Y Keffiych, Y Pabi, a`r Papur Pum Miliwn Doler, pethau oedd yn ei atgoffa o`i waith yn ffilmio ar gyfer Y Byd ar Bedwar. (Fe'i gwelir ar y chwith, gyda Delyth Evans, dalodd y diolchiadau iddo.) Dymuniadau gorau i Eifion a Joy ar eu hymddeoliad.*

*Llyfrau oedd testun mis Tachwedd, a chafwyd prynhawn difyr iawn gyda Cath Edwards, Ann Jones, Menna Bassett ac Elen Lewis yn trafod eu hoff lyfrau. Cawsom hwb i ddarllen mwy o lyfrau Cymraeg!*

*Fis Rhagfyr edrychwn ymlaen at wrando ar Eluned Davies Scott. Testun Nadoligaidd fydd ganddi. Mae rhaglen ddiddorol wedi`i threfnu ar gyfer y Flwyddyn Newydd, a byddwn yn falch o groesawu aelodau newydd i`n plith.*

***Marian Jones***

***Gwirfoddolwch i helpu yn y Tabernacl***



# *Te i'r anghenus yng Nghaerdydd*

Mae te wedi ei weini i'r anghenus yng nghapel Tabernacl, yr Ais, unwaith yr wythnos am flynyddoedd lawer erbyn hyn.
Bob prynhawn Sul, fe fydd Capeli'r ardal yn anfon tîm o bedwar person i weini te a choffi gyda brechdanau a bisgedi. Gan fod cymaint o gapeli yn cymryd rhan, dim ond unwaith pob un wythnos ar ddeg y daw tro Bethlehem Gwaelod-y-garth.
Wedi paratoi'r brechdanau yn y bore, 'rydym yn dechrau ar ein taith i'r Ais erbyn 2.30 er mwyn agor am 3.00. Yna, bydd tuag awr brysur yn dilyn yn arllwys te a choffi a dosbarthu'r brechdanau. Dynion rhan fwyaf sy'n manteisio ar y te ond yn aml fe ddaw merch neu ddwy, a hefyd ambell gi!



Mae sawl person yn falch o sgwrs - hwn yn holl bwysig gan gall fod profiad bod yn ddigartref yn un unig iawn. Erbyn hyn nid yw pob cwsmer heb gartref ond yn byw mewn cartref ei hun, ond yn dod i Tabernacl ar y Sul er mwyn cael tamaid i'w fwyta a chwmnïaeth.
Trist oedd siarad yn ddiweddar â dyn ifanc yn wreiddiol o'r De-Orllewin, a ofynodd am becyn o fwyd i fynd yn ôl i'w blant bach adref. Efallai ei fod yn anodd i ni ddychmygu bod âg eisiau bwyd, ond erbyn hyn mae'r Banciau Bwyd yn adlewyrchu'r broblem hefyd. Er gweld tristwch y sefyllfa mae yna hiwmor ymhlith cwsmeriaid y caffi, a da yw eu gweld yn mwynhau a chymdeithasu.



Pan ddaw hi'n bedwar o'r gloch rhaid cloi'r drysau a thacluso. Felly, gwaith hawdd a boddhaol yw'r ddwy awr.
Dewch i ymuno â ni - torrwch eich enw ar y rhestr yng nghyntedd Bethlehem, fe fyddwn yn falch iawn o'ch help !

**Ken a Judith Evans**

O.N. Mae parcio yn hawdd iawn - mae digon o le ym maes parcio Tabernacl am ddim!

---

***Mark yn diolch am eich help***

# Taith Feic y Lôn Las

Diolch i bawb a wnaeth fy noddi ar gyfer y reid feic ar hyd y 'Lôn Las' o Gaerdydd i Gaergybi. Cwblheais y 260 milltir mewn 4 diwrnod. Erbyn hyn, dw i wedi codi dros £400 tuag at 'Fanc Bwyd Caerdydd'. Os ydych yn dal eisiau cyfrannu siaradwch â Delyth Pollard.

***Mark Eldridge***








**Plant Bethlehem**

**Mae'n braf sylwi fod cynnydd yn niferoedd y plant sy'n mynychu'r Ysgol Sul. Isod fe welwch Festri lawn a phrysur ohonyn nhw un Sul yn ddiweddar, ynghyd â'r mamau ac athrawon oedd wrth law i ofalu amdanyn nhw. Diolch i bawb sy'n bod o gymorth i'r athrawon rheolaidd. A chroeso mawr i unrhyw un sydd eto i ddod – boed yn fam neu blentyn!**







# YR YSGOL SUL





***Diolch i Heulwen a'r holl wirfoddolwyr eraill sy'n helpu'n gyson gyda'r plant yn yr Ysgol Sul.***
***Os oes gennych blant sy'n awyddus i fynychu – dewch â nhw!***













**Bore'r Cwrdd Diolchgarwch – y plant o'r Ysgol Sul fu'n cymryd rhan yn y Gwasanaeth.** (Ymddiheuriadau fod llafn cryf o olau haul wedi tarfu ychydig ar un neu ddau o'r













***Uchod: Na! Nid 'Y Grêt Bethlehem Bêc-off' – ond rhan o gyflwyniad y Cwrdd Diolchgarwch gan Heulwen Jones, am fara gwahanol wledydd. Glenys Evans (llun chwith) oedd yn 'blasu-a-dyfalu' y detholiad o fara ac Eluned Davies Scott (canol) fu'n tylino a chrasu danteithion i'r plant. Adloniadol ac addysgiadol!***

# Dwy briodas



Priodas Gwion Rhys Harding, Ffynnon Taf, a Rhian Eleri Tomos yng Nghapel Heol Awst, Caerfyrddin, ar ddydd Sadwrn, Awst 16.
Mae'r ddau yn byw yng Nglan yr Afon, Caerdydd. Mae Gwion yn rheolwr yn y byd Electroneg a Rhian yn bennaeth adran Mathemateg yn Ysgol Plasmawr.



Owen John, Llysfaen, a'i briod Lois Elenid Roberts ar ddydd eu priodas yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn ger Abergele, ar Fedi 13. Mae Owen a Lois bellach wedi ymgartrefu ym Mharc Victoria yng Nghaerdydd. Mae Owen yn gyfreithiwr gyda Darwin Gray yn y ddinas a Lois yn athrawes yn Ysgol Treganna.

## Llongyfarchiadau i'r canlynol:

- **Dr. Owain Griffiths** ar gymhwyso fel meddyg o Brifysgol Southampton a chael swydd yn Ysbyty Singleton, Abertawe.
- **Caryl a Mark Eldridge**,Ystum Taf, ar enedigaeth Osian Taf, ar Fedi 17 - ŵyr cyntaf i Jeff a Delyth Pollard.
- **Robert a Simela Lamb**, ar enedigaeth Thomas Daniel, yn Dubai ar Orffennaf 16 – ŵyr i Eirlys a Steve Lamb
- **Ifan Glyn,** Pentyrch, ar ei ddyweddïad gyda Dr Rosanna Stenner, Creigiau.
- **Dr. Lowri Glyn**, Pentyrch, ar ei dyweddïad gyda Chris Warlow, o Sir Benfro – a hynny ar fynydd uchaf Siapan!
- **Dr Elen Evans,** Yr Eglwys Newydd ar ei dyweddïad gyda Dr Scott Mitchell o Mansfield.
- **Joy ac Eifion Glyn** ar eu hymddeoliad – y naill o Ysgol Bodringallt, Rhondda a'r llall o'r Byd ar Bedwar.

- Da gweld bod **Shan Osborne** yn gwella ar ôl iddi dorri ei choes.
- A hefyd bod **Margaret Ellis Owen** yn gwella ar ôl salwch diweddar.

## CYDYMDEIMLO

**Rydyn ni fel eglwys yn cydymdeimlo â'r canlynol sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:**

- **Gwawr (Owen)** a'r teulu, Yr Eglwys Newydd – Gwawr wedi colli ei thad ym Mrynhoffnant
- **Ann Hughes** a'r teulu, Pentrepoeth – Ann wedi colli ei mam yng Nghaerfyrddin
- **Jeff Pollard** a'r teulu, Radur – Jeff wedi colli ei dad yn Southampton
- **Shan Osborne** a'r teulu, Yr Eglwys Newydd – Shan wedi colli ei modryb yn Hwlffordd